COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR A GYNHALIWYD YN O BELL TRWY SKYPE DYDD MERCHER, 16 MEDI 2020, AM 15:00

Presennol

Y Cynghorydd SE Baldwin – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| TH Beedle | JPD Blundell | NA Burnett | MC Clarke |
| N Clarke | RJ Collins | HJ David | P Davies |
| PA Davies | SK Dendy | DK Edwards | J Gebbie |
| T Giffard | RM Granville | CA Green | DG Howells |
| A Hussain | RM James | M Jones | DRW Lewis |
| JE Lewis | JR McCarthy | D Patel | RL Penhale-Thomas |
| AA Pucella | KL Rowlands | B Sedgebeer | RMI Shaw |
| CE Smith | SG Smith | JC Spanswick | RME Stirman |
| G Thomas | T Thomas | JH Tildesley MBE | E Venables |
| SR Vidal | MC Voisey | LM Walters | KJ Watts |
| CA Webster | DBF White | PJ White | A Williams |
| AJ Williams | HM Williams | JE Williams | RE Young |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

MJ Kearn a/ac JC Radcliffe

Swyddogion:

| | |
|---|---|
| Gareth Denning | Arweinydd Tîm Polisi |
| Deborah Exton | Dirprwy Bennaeth Cyllid dros dro |
| Lindsay Harvey | Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd |
| Laura Kinsey | Pennaeth Gofal Cymdeithasol Plant |
| Martin Morgans | Pennaeth Gwasanaeth - Perfformiad a Gwasanaethau Partneriaeth |
| Janine Nightingale | Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau |
| Jonathan Parsons | Rheolwr Grŵp Datblygu |
| Andrew Rees | Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd |
| Zak Shell | Pennaeth Gwasanaethau Cymdogaeth |
| Mark Shephard | Prif Weithredwr |
| Nigel Smith | Rheolwr Cyllid |
| Kelly Watson | Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio |

428. DATGANIADAU O DDIDDORDEB

Cofnodwyd y datganiadau canlynol o ddiddordeb:

Nododd Y Cynghorydd PA Davies ddiddordeb personol yn eitem 6 ar yr agenda - Cyflwyniad ar Fargen Prifddinas-Rhanbarth Dinas Caerdydd a’r Rhaglen Gyflwyniadau i’r Dyfodol i’r Cyngor am fod y Cynghorydd yn adnabod Cadeirydd y Panel Partneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi.

Nododd y Cynghorydd SE Baldwin ddiddordeb personol yn eitem 6 ar yr agenda - declared a personal interest in agenda item 6 - Cyflwyniad ar Fargen Prifddinas-Rhanbarth Dinas Caerdydd a’r Rhaglen Gyflwyniadau i’r Dyfodol i’r Cyngor am ei fod yn adnabod Cadeirydd y Panel Partneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi.

429. CADARNHAU COFNODION

PENDERFYNWYD: Derbyn Cofnodion cyfarfod y Cyngor ar y 22 Gorffennaf 2020, fel cofnod gwir a chywir.

430. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN Y MAER

Diolchodd y Maer i holl staff yr awdurdod am eu gwaith caled parhaus yn ystod y cyfnod anodd hwn, a bod eu hymdrechion diflino’n cael eu gwerthfawrogi’n fawr.

Llongyfarchwyd Mr Laurence Brophy o Bencoed a oedd wedi beicio o Land’s End i John ‘O Groats yn ddiweddar i godi arian ac i greu ymwybyddiaeth o Llamau sef elusen i’r digartref. Nododd fod Mr Brophy yn fwy arbennig fyth, am ei bod hi’n ymddangos mai ef yw’r dyn hynaf i gwblhau’r sialens, ac yntau’n 88 mlwydd oed. Hyd yn hyn, mae wedi llwyddo i godi £3,000 ar gyfer yr elusen.

Gyda thristwch, cyhoeddodd y Maer am farwolaeth Mr George Davies yn ddiweddar. Bu’n gymar i’r Maer, sef Marlene Thomas ei ferch, yn ystod ei chyfnod fel yr arweinydd Dinesig. Roedd hefyd yn gyn Cynghorydd cymunedol. Er dathlu ei ben-blwydd yn 90 yn ystod ei gyfnod fel Cymar i’r Maer, ni fethodd yr un digwyddiad gan roi o’i orau yn y rôl, gan ymhél â gwaith pellach yn y gymuned hyd yn oed wedi diwrnodau hir yn cyflawni ei ddyletswyddau dinesig. Estynnodd y Maer ei gydymdeimlad â Marlene Thomas a’i theulu ar ran y Cyngor

431. DERBYN CYHOEDDIADAU GAN YR ARWEINYDD LEADER

Hysbysodd yr Arweinydd yr Aelodau o’r cyhoeddiad mai Rhondda Cynon Taf, yn anffodus, oedd yr ail ardal yng Nghymru i wynebu clo mawr a rhoddodd grynodeb i’r Aelodau o ddiweddariad ar y sefyllfa ym Mhen-y-bont. Mewn cyfarfod o’r Cabinet ddoe, cefnogwyd cynllun gweithredu rhanbarthol a oedd yn amlinellu cyfres o fesurau ar gyfer taclo lledaeniad Covid-19 ac ymateb i unrhyw achosion neu ddigwyddiadau’n gysylltiedig â’r feirws. Mae Cynllun Atal ac Ymateb i Covid-19 yn ymwneud ag ardal Cwm Taf Morgannwg yn gyfan, ac fe’i datblygwyd ar y cyd rhwng awdurdodau lleol a’r bwrdd iechyd er mwyn disgrifio rôl, rôl allweddol, prif amcanion a’r mesurau ar gyfer y rhanbarth yn fanwl, nodi trefniadau ar gyfer atal lledaeniad yr haint ymysg y mwyaf bregus, lliniaru a rheoli ei effaith, a monitro o fewn cymunedau lleol. Mae’r cynllun hefyd yn amlinellu’r gweithdrefnau sydd wedi eu mabwysiadu pan fydd gofyn gwneud penderfyniadau yn ymwneud â gweithredu camau lleol neu gyfyngiadau, fel y gwelwyd yn fwyaf diweddar yn ardal Caerffili, a bellach yn Rhondda Cynon Taf.

Eglurodd fod modd rheoli nifer o glystyrau a digwyddiadau drwy raglen Profi, Olrhain, Diogelu heb fod angen cau adeiladau na gweithredu cyfyngiadau clo mawr pellach, ac mae ymchwiliadau trylwyr a threfniadau rheoli wedi eu mabwysiadu ar gyfer unrhyw ddatblygiadau arwyddocaol. Cyfeiriodd y Cyngor at rôl ganolog pob Cyngor o safbwynt rheoli Covid-19 yng Nghymru. Tanlinellodd y modd y caiff trigolion bregus eu cefnogi gan ofal cymdeithasol, yr hybiau gofal plant sydd wedi cefnogi gweithwyr allweddol hanfodol a phlant bregus. Cynnal gwasanaethau hanfodol, sicrhau fod staff ar gael i gefnogi’r rhaglen Profi, Olrhain, Diogelu. Os bydd galw ar y Cyngor i ymateb i ddigwyddiadau neu achosion arwyddocaol pellach, bydd yn ateb y galw yma.

Hysbysodd yr Arweinydd yr Aelodau y gall fod pobl yn poeni am y cynnydd diweddar yn y cyfraddau heintio ar hyd a lled rhanbarth De Cymru a’r cyfyngiadau sydd eisoes wedi eu cyhoeddi, ac aeth ati i sicrhau’r Aelodau a’r trigolion fod y systemau angenrheidiol yn eu lle i geisio atal hyn rhag digwydd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont. Ar yr un pryd, dylai pawb gydnabod fod osgoi gorfod wynebu clo mawr neu beidio yn dibynnu i raddau helaeth iawn ar ymateb y gymuned. Pwysleisiodd ei bod hi’n bwysicach nac erioed i’r

Fwrdeistref Sirol ddod ynghyd fel un gymuned, i ymddwyn mewn modd cyfrifol a diogel, a dilyn y gofynion cenedlaethol o safbwynt ymbellhau cymdeithasol, gwisgo gorchudd wyneb, golchi dwylo a diheintio. Eglurodd nad oedd y pandemig drosodd o bell ffordd, ac y dylai trigolion fod yn wyliadwrus o hyd. Hysbysodd yr Aelodau fod datganiad ar y cyd wedi ei gyhoeddi yn gynharach yr wythnos hon rhwng y Cyngor a Heddlu De Cymru yn gofyn ar i drigolion ymddwyn yn gyfrifol a chadw'n effro gan annog pobl i osgoi ymgasglu yn eu niferoedd ar gyfer Gŵyl Elvis ym Mhorthcawl, sydd wedi ei chanslo, ac i feddwl ddwywaith, cadw'n ddiogel ac aros gartref. Hyderai y byddai Aelodau'n cefnogi'r ymdrechion yma ac yn helpu i hybu'r prif negeseuon pwysig yma ymysg eu hetholwyr.

Cyhoeddodd yr Arweinydd fod naw digwyddiad wedi bod ers i'r ysgolion ailagor, lle'r oedd staff neu ddisgyblion wedi derbyn prawf coronafeirws positif, gan arwain at y disgyblion a'r staff yn hunan-ynysu yn unol â chanllawiau cenedlaethol fel cam rhagofalus. Nododd fod y fath ddigwyddiadau'n anorfod tra bod y pandemig yn dal yn ei anterth, ond gan fod cymaint o fesurau diogelwch rhesymol wedi eu mabwysiadu ar sail asesiadau risg llawn, mae mwy o fanteision i fynychu'r ysgol na pheidio. Roedd ysgolion wedi bod yn paratoi i groesawu disgyblion nôl i'r ysgol ers cryn amser bellach, ac ym mhob achos, llwyddwyd i ymateb yn sydyn yn unol â chyngor Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae gan bob ysgol nifer helaeth o fesurau i leihau risg, cyfyngu ar gyswllt a chynnal safonau hylendid uchel. Mae disgyblion sydd heb eu heffeithio'n dal i fynychu gwersi fel arfer, y rhai sy'n hunan-ynusu'n cael eu dysgu drwy gyfrwng gwersi ar-lein, dosbarthiadau rhithiol ac adnoddau dysgu cyfunol. Gofynnodd ar i rieni, gofalwyr a gwarcheidwaid gefnogi'r ymdrechion yma i atal lledaeniad y coronafeirws drwy barhau i fod yn wyliadwrus, ac osgoi anfon plant sy'n dangos symptomau i'r ysgol.

Nododd fod y cynnydd sydyn mewn achosion ar hyd a lled y DU, a bod penawdau cyfredol y newyddion yn llawn straeon ynglŷn â'r modd y mae'r Llywodraeth ganolog a Llywodraeth Cymru'n ymdrin â'r oedi o safbwynt profion coronafeirws. Mae mesurau ar waith, yn cynnwys unedau profi symudol sydd i'w lansio yng Nghymru a'u gyrru i'r ardaloedd lle mae'r galw mwyaf amdanynt. Gellir gweld y Cynllun Atal ac Ymateb i Covid-19 ar wefan y cyngor, ac anogodd yr Aelodau i'w ddarllen er mwyn gweld sut mae'r pandemig yn cael ei drin ar raddfa ranbarthol. Eglurodd y byddai'r Cyngor yn dal i weithio ar y cyd â phartneriaid i wneud popeth posib i amddiffyn trigolion bregus, ac i sicrhau ei fod yn dal i ddarparu gwasanaethau hanfodol i bobl leol.

Cydymdeimlodd yr Arweinydd â Mrs Marlene Thomas, cyn arweinydd y Fwrdeistref Ddinesig, ar golli ei thad, Mr George Davies, a fu'n Faer cydweddog iddi yn ystod ei blwyddyn yn y rôl.

Llongyfarchodd Mr Laurence Brophy o Bencoed ar ei lwyddiant yn beicio o Land's End i John 'O Groats er mwyn codi arian ar gyfer Llamau.

Estynnodd groeso cynnes i Janine Nightingale, Cyfarwyddwr Corfforaethol Cymunedau a oedd yn mynychu ei chyfarfod cyntaf o'r Cyngor.

432. CYFLWYNIAD O FARGEN PRIFDDINAS-RANBARTH DINAS CAERDYDD A'R RHAGLEN GYFLWYNIADAU I'R DYFODOL I'R CYNGOR

Cyflwynodd y Prif Weithredwr gyflwyniad i'r Cyngor o raglen Bargen Prifddinas-Ranbarth Caerdydd a'r rhaglen gyflwyniadau i'r Cyngor yn y dyfodol. Nododd fod tri diben i'r cyflwyniad ar Fargen Prifddinas-Ranbarth, yn benodol, er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth o'r rhaglen i'r Aelodau, rhoi cyfle i ddangos y cynnydd da ac er mwyn trafod cyfleoedd i'r rhaglen o fewn Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont.

Rhoddwyd cyflwyniad o Fargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd (CCR) i'r Cyngor gan Kellie Beirne, Cyfarwyddwr Bargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd (CCR) a

Frank Holmes, Cadeirydd Panel y Bartneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi. Nododd Cyfarwyddwr y Fargen Prifddinas-Ranbarth mai rhaglen fuddsoddi £1.3bn cyhoeddus yw'r Fargen Prifddinas-Ranbarth sy'n seiliedig ar bartneriaeth driwiaeth o 10 awdurdod lleol, Llywodraeth Cymru a'r Llywodraeth Ganolog. Ei nod oedd cynhyrchu 25,000 o swyddi ychwanegol, sicrhau gwerth £4 biliwn o fuddsoddiad pellach a chynyddu Gwerth Gros Ychwanegol i'r economi o 5%. Eglurodd wrth y Cyngor fod y Cynhgorau'n cydweithio ar sail deg am eu bod yn rhannu daearyddiaeth economaidd weithredol, ond o fewn hynny, fod rhai o'r mannau mwyaf a lleiaf cystadleuol yn bodoli ochr yn ochr â'i gilydd, ac o'r herwydd gallai strategaeth unigol danseilio yn hytrach na mynd i'r afael â rhai o'r problemau endemig hynny. Amlinellodd awgrymiadau arloesol y rhaglen, a fyddai'n cael eu defnyddio nid yn unig er mwyn canolbwyntio ar dechnoleg a busnes, ond hefyd i hybu'r gymdeithas ddinesig, gan sbarduno tyfiant o safbwynt economïau Sylfaen a'r sector gwasanaethau cyhoeddus. Y nod yw creu amodau ar gyfer llewyrch cyffredinol ac i sicrhau fod amcanion economaidd yn cyd-fynd â pholisi cymdeithasol mwy blaengar ac i fod yn wydn a pharhaus.

Cyfeiriodd Cadeirydd Panel y Bartneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi y Cyngor at y prosesau sydd wedi eu mabwysiadu a'i fod wedi ymgynnull bwrdd o unigolion profiadol gyda'r rôl o asesu'r rhaglen fuddsoddi, ymgynghorwyr i'r Cabinet ar y cyd ac i sicrhau buddsoddiad mewnol. Soniodd fod angen cynllun ar y Bwrdd i sicrhau fod arian yn cael ei fuddsoddi yn unol â'r rhaglen fuddsoddi er mwyn trosoledd o'r buddsoddiad ychwanegol o £4bn. Roedd y Bwrdd eisoes wedi dechrau ar y 3 piler angenrheidiol o safbwynt sicrhau gwir gysylltedd rhanbarthol gyda phartneriaethau cyhoeddus a phreifat. Er mwyn bod yn gystadleuol, roedd angen buddsoddi mewn arloesedd a chysylltedd gyda chysylltedd digidol yn hollbwysig a'r angen i fod yn gadarn er budd y genhedlaeth hon a chenedlaethau'r dyfodol. Nododd fod y cynllun wedi ei adolygu'n ddiweddar, yn ogystal â datblygu fframwaith fuddsoddi er mwyn hybu arloesedd a helpu cwmnïau i dyfu. Gwnaed ymchwil helaeth i sicrhau fod arian yn cael ei ddefnyddio'n briodol ar draws y rhanbarth.

Hysbysodd Cyfarwyddwr Bargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd (CCR) y Cyngor o'r ymgyrch i sicrhau tyfiant cadarn da ar sail rhagwelediad a'r hyn oedd i ddod, a fyddai'n sicr o gael ei effeithio'n anghyfartal gan Brexit o ystyried dibyniaeth ar gronfeydd strwythurol yr Undeb Ewropeaidd o safbwynt tyfiant economaidd. Eglurodd na fyddai unrhyw fargen ddinesig arall ac y byddai unrhyw fuddsoddiad rhanbarthol newydd ar lefel Llywodraeth y DU bellach yn dod wrth UKIS. Byddai angen datblygu nodweddion er mwyn caniatáu i'r rhanbarth fod yn gystadleuol ac y byddai angen i'r sector gyhoeddus newid. Cyfeiriodd Cyfarwyddwr y CCR y Cyngor at y seiliau cadarn yr adeiladwyd arnynt, a'r modd y gweddnewidiwyd arferion gwaith a chyflymder penderfyniadau. Amlinellodd fraslun o'r Gronfa Fuddsoddi ac Ymyrraeth, gan sôn fod 28 cynllun ar y gweill oedd yn gofyn am gyfanswm buddsoddiad o £390m. Tanlinellodd y cynlluniau a oedd wedi eu cymeradwyo mor belled yn y sectorau cyhoeddus a phreifat a lle'r oedd buddsoddiad ychwanegol wedi ei sicrhau. Hysbysodd y Cyngor fod y Rhanbarth wedi amlygu ei hun drwy'r cynllun Global Welsh. Rhoddodd Cyfarwyddwr y CCR drosolwg o'r hyn oedd yn oblygedig o safbwynt Pen-y-bont, yn cynnwys adeiladu ar gryfderau a chyfleodd o fod yn lleoliad gweithgynhyrchiol ddwys. Gorffennodd drwy sôn fod y Fargen Prifddinas-Ranbarth wedi ei sefydlu ar seiliau cadarn ar gyfer cam nesaf y daith.

Cododd un o aelodau'r Cyngor gwestiwn ynglyn ag effaith y Fargen Prifddinas-Ranbarth yn sgil y penderfyniad i wrthod caniatâd i ffordd liniaru'r M4. Roedd Cadeirydd y Panel Partneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi o'r farn fod ymwrthod â'r cynllun yn newyddion drwg o safbwynt busnes yng Nghymru ac y byddai'n effeithio ar fusnes rhyngwladol. Roedd Ffederasiwn y Busnesau Bach, Cydffederasiwn Diwydiant Prydain a Sefydliad y Cyfarwyddwyr yn gefnogol i'r cynllun. Eglurodd Cyfarwyddwr y CCR fod yr Awdurdod Trafnidiaeth Ranbarthol yn credu fod angen cysoni'r prif gynlluniau trafnidiaeth ac y byddai cynllun yr HS2 yn effeithio ar y Fargen Prifddinas-Ranbarth.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y penderfyniad na fyddai unrhyw Fargen Prifddinas-Ranbarth yn y dyfodol gan holi pa raglenni fyddai'n cael eu datblygu i sicrhau fod cyllid ar gael o hyd. Eglurodd Cyfarwyddwr y CCR fod angen cynaladwyedd a bod disgwyl y bydd y Fargen Prifddinas-Ranbarthol yn arwain at fwy o gyllid. Hysbysodd Cadeirydd y Panel Partneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi y Cyngor fod y drefn gywir yn ei lle i sicrhau ymddiriedaeth ar bob lefel o lywodraeth er mwyn i'r rhanbarth allu gwrthsefyll rhanbarthau eraill er mwyn sicrhau buddsoddiad addas. Hysbysodd yr Arweinydd y Cyngor fod y rhanbarth yn awyddus i gydweithio â phartneriaid byd-eang o ran darparwyr band eang a thechnoleg. Eglurodd fod y rhanbarth ymysg y rhanbarthau sy'n datblygu gyflymaf o safbwynt poblogaeth a bod angen sicrhau fod buddsoddwyr yn buddsoddi arian yn y rhanbarth er budd yr holl drigolion

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at agosrwydd Pen-y-bont at ranbarth Bargen Dinas Bae Abertawe gan holi os oes cydweithio â'r rhanbarth honno. Hysbysodd Cyfarwyddwr y CCR y Cyngor fod cryn drafod â rhanbarth Bargen Dinas Bae Abertawe a bod cydweithredu o safbwynt sicrhau fod y rhaglenni'n aliniedig. Mae Bargen Dinas Bae Abertawe'n wahanol i'r Fargen Prifddinas-Ranbarthol am fod gan y rhanbarth wneuthurwr lled-ddargludydd cyfansawdd. Cyfeiriodd Aelod y Cabinet dros Addysg ac Adfywio at y ffaith fod lleoliad Pen-y-bont yn ymyl Bargen Dinas arall yn fantais a bod Pen-y-bont wedi bod yn ganolbwynt trafnidiaeth erioed ac roedd yn awyddus i Ben-y-bont ddatblygu fel canolbwynt o'r gorllewin i gysylltu â Maes Awyr Caerdydd. Soniodd am y gwasanaeth rheilffordd anghyson i gyfeiriad Y Pîl ac am yr angen i fuddsoddi yn yr orsaf a sicrhau gwasanaeth bob awr yn ystod yr wythnos ac am adnodd parcio a theithio er mwyn cysylltu â Phorthcawl a chymunedau yn y cymoedd. Holodd aelod o'r Cyngor os oedd cynlluniau i sicrhau integreiddio'r Pîl a Phorthcawl. Eglurodd yr Arweinydd fod cyllid ar gael o'r Fargen Prifddinas-Ranbarthol a Llywodraeth Cymru ar gyfer buddsoddiad sylweddol yng ngorsaf Y Pîl er mwyn gwella'r cysylltiadau â Phorthcawl. Roedd Aelod y Cabinet dros Gymunedau'n gweld fod y ffaith fod Pen-y-bont ar y ffin â Bargen Dinas Bae Abertawe fel mantais ac mewn lleoliad unigryw o safbwynt denu busnesau byd-eang gan mai yno oedd gorsaf drenau ail brysuraf y rhanbarth gyda chysylltiadau â'r maes awyr.

Holodd aelod o'r Cyngor ynglŷn ag effaith Covid-19 ar y cynlluniau ar gyfer y Fargen Prifddinas-Ranbarthol. Eglurodd Cyfarwyddwr y CCR fod pob cynllun wedi ei adolygu yn sgil Covid-19 a bod arolwg cynhwysfawr wedi ei gynnal er mwyn sicrhau fod buddsoddiad a chefnogaeth ar gael ar gyfer mentrau bach a chanolig. Hysbysodd yr Arweinydd y Cyngor fod busnesau yn cael eu gwahodd i wneud cais i'r Gronfa Sialens, yn enwedig o blith y sector technoleg feddygol. Eglurodd Cadeirydd y Panel Partneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi wrth y Cyngor fod y Gronfa Sialens yn edrych i fynd i'r afael â phroblemau economaidd a chreu cyfleoedd.

Holodd aelod o'r Cyngor beth fyddai effaith cymdeithasol-economaidd Covid-19 gan ofyn am sicrwydd y byddai hyblygrwydd o fewn y strategaeth i addasu i sefyllfaoedd gwahanol. Eglurodd Cyfarwyddwr y CCR na allai'r rhaglen aros yn ei hunfan a bod angen sicrhau cydbwysedd o fewn y rhaglen gan mai'r amcan oedd gwella bywydau. Soniodd Cadeirydd y Panel Partneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi fod bas tystiolaeth yn cael ei gadw'n gyfredol a bod 2 fyfyriwr PHD yn monitro'r gweithgareddau yma. Nododd ei bod hi'n anodd rhagweld effaith Covid-19 ond bod angen darparu'r data gorau posibl. Hysbysodd yr Arweinydd y Cyngor fod y Fargen Prifddinas-Ranbarthol wedi ymateb i'r pandemig drwy ailstrwythuro'r rhaglen a gwneud hynny yn y fath fodd er mwyn gallu ymateb i newidiadau.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Y byddai'r Cyngor yn:

(1) Nodi cyflwyniad Cyfarwyddwr y Fargen Prifddinas-Ranbarthol Dinas a Chadeirydd y Panel Partneriaeth Economaidd Ranbarthol a Buddsoddi.

(2) Nodi'r rhaglen ar gyfer cyflwyniadau i'r Cyngor yn y dyfodol fel yr amlinellwyd.

Gohiriwyd y cyfarfod am 16.55 gan ailddechrau eto am 17.00.

433. ADRODDIAD BLYNYDDOL CANLYNIAD RHEOLI'R TRYSORLYS 2019-20

Cyflwynwyd yr adroddiad gan y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro, gyda'r bwriad o gydymffurfio â gofynion Rheolaeth y Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer (y Cod) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg (CIPFA), i gyflwyno trosolwg o weithgareddau'r trysorlys ar gyfer y flwyddyn ariannol flaenorol ac i adrodd ar Ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys 2019-20.

Adroddodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro fod y trysorlys y Cyngor yn cael ei reoli o fewn fframwaith Rheolaeth y Trysorlys mewn Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer Rhifyn 2017 (y Cod CIPFA) y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifeg sy'n gofyn i'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (TMS) cyn dechrau bob blwyddyn ariannol. Darperir arweiniad i'r Cyngor ynglŷn â rheoli'r trysorlys gan Arlingclose ac yn dilyn proses dendro, nhw sydd wedi eu penodi eto am gyfnod o 4 mlynedd, tan Awst 2024.

Eglurodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro fod ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a threfniadau masnachu i'r dyfodol yn parhau i fod yn un o'r prif ddylanwadau ar economi'r DU yn ystod 2019-20. Symudodd Banc Lloegr, a oedd wedi cadw cyfraddau llog yn gyson ar 0.75% drwy gydol 2019-20 bron, i dorri'r gyfradd o 0.75% i 0.25% ym mis Mawrth 2020 a'i thorri eto'n fuan wedyn i 0.1%, sy'n record. Hysbysodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro y Cyngor fod y pandemig Covid-19 wedi newid y popeth yn gyflym iawn tua diwedd y flwyddyn ariannol gan greu ansicrwydd yn y marchnadoedd arian.

Adroddodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro ar Ganlyniad Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019-20 gan hysbysu'r Cyngor ei fod wedi cydymffurfio â'r gofynion deddfol a rheolaethol yn ystod 2019-20. Cyflwynodd grynodeb o'r ddyled allanol a'r sefyllfa fuddsoddi ar gyfer 1 Ebrill 2019 tan 31 Mawrth 2020, ni chymerwyd unrhyw fenthyciadau tymor hir yn ystod 2019-20 ac ni chafodd unrhyw ddyled ei had-drefnu am nad oedd manteision arbed arian sylweddol, ond byddai'r portffolio benthyciadau'n cael ei adolygu yn ystod 2020-21. Hysbysodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro y Cyngor fod llif arian ffafriol wedi sicrhau cyllid dros ben ar gyfer buddsoddi a bod balans y buddsoddiadau ar y 31 Mawrth 2020 yn £30 miliwn, ar raddfa llog cyfartalog o 0.82%. Gwelwyd cynnydd yn y buddsoddiadau dyledus o ddechrau'r flwyddyn ariannol pan welwyd buddsoddiad o £27.4 miliwn ar raddfa llog cyfartalog o 0.94%. Cyflwynodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro grynodeb a chanlyniad y strategaeth fuddsoddi gan egluro mai'r prif amcanion yn ystod 2019-20 oedd cynnal sicrwydd cyllid; sicrhau hylifedd, fel bod cyllid ar gael pan fydd ei angen a dim ond ceisio cynnydd ar y buddsoddiadau wedyn. Hysbysodd y Cyngor fod y mwyafrif o'r buddsoddiadau yn rhai tymor byr oedd yn cael eu dal gydag awdurdodau lleol o fewn y DU a banciau o ansawdd credyd uchel.

Nododd aelod o'r Cyngor mai arfer awdurdodau lleol oedd benthyca arian i awdurdodau lleol eraill. Hysbysodd Dirprwy Arweinydd y Cyngor fod Strategaeth Reoli'r Trysorlys wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor a bod y Swyddogion yn gweithredu'r strategaeth. Eglurodd fod benthyg arian i gynghorau eraill yn fodd i'r Cyngor fuddsoddi. Hysbysodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro yr Aelodau fod y Cyngor yn buddsoddi arian am gyfnod byr gydag awdurdodau lleol y DU gan dderbyn ad-daliad bob tro, ac yn aml iawn

yr un arian sy'n cael ei ail-fuddsoddi. Ceisir cyngor ynglŷn â buddsoddi oddi wrth ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys y Cyngor bob amser.

Holodd aelod o'r Cyngor a allai'r cyngor ail-drafod benthyciadau LOBO ar sail y cyfraddau llog is cyfredol. Eglurodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro wrth y Cyngor fod gan y benthyciwr yr opsiwn i awgrymu cyfradd llog newydd a bod gan y Cyngor yr opsiwn, fel yr un sy'n rhoi'r benthyciad, p'un ai i dderbyn y gyfradd honno. Aeth ymlaen i ddweud gan fod y cyfraddau llog mor isel, byddai benthycwyr yn annhebygol o leihau'r cyfraddau. Hysbysodd y Cyngor hefyd y byddai'r Cyngor yn wynebu cosb petai'n ad-dalu'n gynnar.

Holodd aelod o'r Cyngor a allai'r Swyddogion ystyried y cyfle i fanteisio ar fenthyciadau rhatach yn sgil cyfraddau llog isel yn achos eu hadroddiad nesaf ar Reoli'r Trysorlys i'r Cyngor. Cytunodd y Dirprwy Bennaeth Cyllid Dros Dro ystyried hyn.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cyngor yn:

- Cymeradwyo gweithgareddau blynyddol rheoli'r trysorlys ar gyfer 2019-20.
- Cymeradwyo gwir ddangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2019-20 yn erbyn y rhai a gafodd eu cymeradwyo yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2019-20.

434. DIWEDDARIAD O GYNLLUN CORFFORAETHOL 2018-2022 WEDI EI ADOLYGU AR GYFER 2020-21, YN SGIL EFFAITH COVID-19

Gofynnodd y Prif Weithredwr i'r diweddariadau i Gynllun Corfforaethol y Cyngor ar gyfer 2018-2022 wedi ei adolygu ar gyfer 2020-21, yn sgil effaith Covid-19 gael eu cymeradwyo ac i'r Cyngor fabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig.

Adroddodd fod Cynllun Corfforaethol 2018-2022 yn disgrifio gweledigaeth y Cyngor ar gyfer Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont, y 3 amcan lles a'r gwerthoedd sefydliadol a'r egwyddorion sy'n sail i'r modd y bydd y Cyngor yn gweithio i gyflawni ei flaenoriaethau. Eglurodd fod y Cynllun yn cynrychioli cyfraniad y Cyngor wrth gyflawni'r 7 amcan lles cenedlaethol fel y nodwyd yn Neddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ac amcanion cynnydd Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Eglurodd fod effaith y pandemig Covid-19 wedi effeithio ar allu'r Cyngor i symud ymlaen o safbwynt cyflawni ei amcanion lles yn unol â'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig. Nododd mai da o beth fyddai adolygu'r ymrwymiadau a'r targedau cyfredol a chanolbwyntio ar y prif flaenoriaethau ar gyfer gweddill 2020-21. Cyfeiriodd at newidiadau arfaethedig y Cynllun Corfforaethol oedd yn cynnwys rhai mân newidiadau i ymrwymiadau'r Cyngor yn ogystal ag ambell un newydd i adlewyrchu'r prif feysydd blaenoriaeth y mae angen i'r Cyngor ganolbwyntio arnynt yn ystod gweddill 2020-21. Dywedodd fod nifer o fesurau llwyddiant newydd yn y Cynllun, yn ogystal â rhai cyfresol, a'u targedau wedi eu hadolygu. Yn achos y targedau oedd wedi eu lleihau o ganlyniad i effaith Covid-19 darparwyd eglurhad o'r rhesymeg, er enghraifft, effaith cau canol trefi ar fusnesau a nifer ymwelwyr.

Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cyngor y byddai'r Cynllun yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn ystyried newidiadau yn y sefyllfa a'r cynnydd a wnaed ochr yn ochr â'r amcanion lles er mwyn sicrhau cyflawni gofynion y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Bydd yr ymrwymiadau a'r mesurau diwygiedig yn cymryd lle'r ymrwymiadau a'r mesurau a gynhwysir yn y Cynllun Corfforaethol cyfredol ac yn dod yn rhan o Gynllun Corfforaethol 2018-2022 wedi ei adolygu ar gyfer 2020-21. Hysbysodd y Cyngor y caiff cyflawniad ei gefnogi gan y Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a chyfarwyddiaeth cynlluniau busnes a'i fonitro'n

chwarterol drwy gyfrwng cyfarfodydd tîm rheoli'r gyfarwyddiaeth a'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Corfforaethol gan ystyried argymhellion y Panel Adferiad.

Pwysleisiodd y prif newidiadau a argymhellwyd yng nghyswllt yr adran deilliannau dysgwyr yn sgil cyflwyno dysgu hybrid a chyfunol a datblygiad amgylchedd diogel mewn ysgolion. Ceir ffocws cynyddol ar gefnogi isadeiledd er mwyn i fusnesau allu goresgyn effaith y pandemig. O safbwynt datblygu cymunedau cadarn, bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth â Chynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cymunedol i sicrhau atebion tymor hir er mwyn rheoli adnoddau / gwasanaethu. O safbwynt diwylliant a hamdden roedd angen ailsefydlu cyfranogiad drwy wella mynediad a dileu rhwystrau. Edrychir ar gyfleoedd o safbwynt trawsnewidiadau digidol er mwyn esblygu ffyrdd newydd o weithio ac ailfodeli gwasanaethau.

Hysbysodd y Cyngor fod y Cabinet wedi awgrymu newidiadau o safbwynt ychwanegu naratif yng nghyswllt adeiladau gwag a pharcio rhad ac am ddim a pharhau i weithio gyda busnesau sy'n bodoli eisoes a busnesau newydd. O safbwynt gweithio gyda Chynghorau Tref a Chymuned, bydd y Cyngor hefyd yn gweithio gyda'r trydydd sector. Bydd ychwanegiad hefyd i weithio ar leihau digartrefedd ac i weithio gyda'r rhai sy'n cysgu ar y stryd gan ddefnyddio cyllid Llywodraeth Cymru. Bydd y Cyngor yn datblygu strategaeth iechyd meddwl ar gyfer oedolion a phlant. Bydd y Cyngor hefyd yn datblygu cyfleoedd ar gyfer prentisiaethau. Cymeradwyodd yr Arweinydd yr adolygiadau i'r Cynllun Corfforaethol.

Holodd aelod o'r Cyngor p'un ai fyddai oblygiadau ariannol y pandemig yn effeithio ar y nifer o staff sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor. Hysbysodd y Prif Weithredwr y Cyngor fod effaith ariannol y pandemig yn anhysbys hyd yma am nad oedd cadarnhad ynglŷn â chyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru. Eglurodd fod gan y Cyngor feichiau newydd ac y gallai fod newid yn rôl rhai aelodau o'r staff er mwyn cyflawni rôl newydd. Mae cronfa Covid wedi ei chreu ac roedd yn hyderus y byddai Llywodraeth Cymru yn ariannu costau unigol, ond roedd yn bryderus ynglŷn â'r incwm roedd y Cyngor wedi ei golli. Nododd y byddai angen ystyried gweithio mewn modd gwahanol yn hytrach na lleihau nifer y staff.

Nododd aelod o'r Cyngor y dylai'r strategaeth iechyd meddwl hefyd gynnwys pobl hŷn yn sgil y teimladau o unigrwydd y maent wedi gorfod eu hwynebu yn ystod y pandemig. Dywedodd yr Arweinydd y byddai'r strategaeth yn ymdrin ag oedolion a phlant gyda'r bwriad o'i gyfeirio at y bwrdd iechyd a'r trydydd sector.

<u>PENDERFYNWYD:</u> Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r diweddariad i'r Cynllun Corfforaethol 2018-22 wedi ei adolygu ar gyfer 2020-21 a atodir fel Atodiad A ac yn mabwysiadu'r Cynllun Corfforaethol diwygiedig a atodir fel Atodiad B.

435. <u>CYNLLUN DATBLYGU LLEOL PEN-Y-BONT (LDP) – CYTUNDEB CYFLWYNO WEDI'I DDIWYGIO</u>

Cyfeiriodd Arweinydd y Tîm Cynllunio Datblygiad at yr angen i adolygu'r Cytundeb Cyflwyno Cynllun Datblygu Lleol (DA), a gafodd ei gymeradwyo'n flaenorol gan Lywodraeth Cymru (WG) ym mis Mehefin 2018 a cheisio cael caniatâd i addasu'r Amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol yn sgil y pandemig Covid-19. Hysbysodd y Cyngor fod y Pwyllgor Rheoli Datblygiad, yn ystod cyfarfod 20 Awst 2020, wedi cytuno i'r argymhellion yn yr adroddiad hwn gan gyfeirio'r argymhellion i'r Cyngor eu cymeradwyo.

Adroddodd fod y Cyngor wedi derbyn llythyr oddi wrth Lywodraeth Cymru ar 7 Gorffennaf 2020 yn eu cynghori i ymgymryd ag asesiad o'r bas tystiolaeth dechnegol oedd yn sail i'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, ynghyd â'r strategaeth ddewisedig a

pholisïau o safbwynt sensitifrwydd i ganlyniadau'r pandemig. Eglurodd fod y dasg hon wedi ei chwblhau ynghyd â'r casgliadau a amlinellwyd yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Roedd Llywodraeth Cymru hefyd wedi awgrymu y dylid addasu Cytundebau Cyflwyno er mwyn dwyn unrhyw newidiadau angenrheidiol i amserlen y Cynllun Datblygu Lleol yn sgil unrhyw oedi oherwydd y pandemig i ystyriaeth. Dylai hyn hefyd gynnwys diwygiadau i'r Cynllun Ymwneud Cymunedol (CIS) oherwydd yr angen i addasu i batrymau gwaith newydd ac ystyried dulliau amgen o ymwneud â rhanddeiliaid yn sgil yr angen i ymbellhau'n gymdeithasol. Amlinellodd y diwygiadau posib i'r amserlen. Eglurodd y dylai'r Cynllun Cyflwyno gael ei drafod rhwng Ionawr a Mawrth 2021 (yn hytrach na Gorffennaf - Awst 2020), ond roedd caniatâd wedi ei roi i ymestyn y cyfnod trafod statudol o 5 wythnos i 8 wythnos er mwyn rhoi mwy o amser i bobl gynnig eu safbwyntiau wrth ystyried unrhyw gyfyngiadau pellach yn sgil y pandemig. Hysbysodd y Cyngor na fyddai modd mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol terfynol am gyfnod pellach o hyd at 6 mis o ganlyniad, er bod y dyddiadau'n ymwneud â'r camau'n dilyn cyflwyno'r cynllun i Lywodraeth Cymru'n ddynodol. Amlinellodd sut y cafodd y Cynllun Ymwneud Cymunedol ei ddiwygio gan ystyried gwahanol ddulliau o sicrhau ymwneud rhanddeiliaid wrth ddilyn mesurau ymbellhau cymdeithasol sy'n debygol o fodoli i'r dyfodol rhagweladwy.

PENDERFYNWYD: Y byddai'r Cygnor yn:

- cymeradwyo'r adolygiadau i'r amserlen a'r Cynllun Ymwneud Cymunedol gan roi'r hawl i Reolwr y Grŵp Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu i gyflwyno'r Cytundeb Cyflawni (gweler Atodiad 2) i Lywodraeth Cymru; a
- dirprwyo awdurdod i Reolwr Tîm y Gwasanaethau Cynllunio a Datblygu er mwyn gwneud unrhyw gywiriadau ffeithiol neu fân newidiadau i'r Cytundeb Cyflwyno yn ôl y gofyn.

436. ADRODDAIADAU GWYBODAETH I'W NODI

Hysbysodd y Maer y Cyngor ei fod wedi derbyn neges oddi wrth Gyfarwyddwr Bargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd yn ei hysbysu fod datganiad wedi ei wneud i'r wasg Geidwadol yn honni fod Bargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd yn cefnogi ffordd liniaru'r M4 ac yn rhoi'r bai ar Lywodraeth Cymru am ei chanslo. Gan fod Ms Bernie yn Swyddog, rhoddodd gyfle i Mr Frank Holmes fynegi ei farn fel gŵr busnes annibynnol. Ni wnaeth Ms Beirne gefnogi'r feirniadaeth o Lywodraeth Cymru am ganslo ffordd liniaru'r M4. Gofynnodd i'r Aelod Ceidwadol a wnaeth y datganiad gwreiddiol gywiro'r datganiad a roddwyd i'r wasg.

Gofynnodd Arweinydd y Grŵp Ceidwadol am gael codi pwynt o drefn gan gredu fod tor-rheol wedi bod o safbwynt y Cyfansoddiad. Eglurodd y Maer fod y datganiad yn ganlyniad i neges y derbyniodd oddi wrth Gyfarwyddwr Bargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd. Dywedodd y Swyddog Monitro nad oedd cyfeiriad wedi ei wneud at ba ran o'r Cyfansoddiad oedd wedi ei dorri. Eglurodd y Maer fod y neges a dderbyniodd oddi wrth Gyfarwyddwr Bargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd yn sôn fod rhywun wedi siarad â'r wasg Geidwadol. Dywedodd Arweinydd y Grŵp Ceidwadol nad oedd hi'n glir fod y sylw wedi ei wneud gan y Grŵp Ceidwadol. Atebodd y Maer ei bod hi'n annhebygol mai'r Grŵp Llafur oedd wedi gwneud y sylw ac na wnaeth Cyfarwyddwr Bargen Prifddinas-Ranbarth Dinas Caerdydd feirniadu Llywodraeth Cymru, ond fod y sylwadau wedi eu gwneud gan rywun sy'n annibynnol o'r Fargen. Roedd Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Grŵp Ceidwadol yn anfodlon â'r feirniadaeth ar eu grŵp nhw. Cadarnhaodd aelod o'r Cyngor a ofynnodd y cwestiwn yn ystod y cyflwyniad am ganslo ffordd lliniaru'r M4 nad oedd wedi cysylltu ag unrhyw un, yn cynnwys y wasg.

Cynigiwyd ac eiliwyd symud ymlaen o'r drafodaeth ar y mater.

Canlyniad y bleidlais oedd 20 o blaid y cynnig i symud ymlaen o'r drafodaeth ar y mater a 9 o blaid parhau â'r ddadl.

Adroddodd y Prif Swyddog Cyfreithiol, Gwasanaethau Adnoddau Dynol a Rheolaethol a'r Swyddog Monitro ar yr Adroddiadau Gwybodaeth canlynol a gyhoeddwyd ers cyfarfod diwethaf y Cyngor. Cyngor.

| Teitl | Dyddiad Cyhoeddi |
|---|---|
| Penderfyniadau Brys wedi eu Dirprwyo | 10 Medi 2020 |
| Datganiad Cyfrifon Terfynol 2019-20 | 10 Medi 2020 |

PENDERFYNWYD: Fod y Cyngor yn cydnabod cyhoeddi'r dogfennau a restrwyd yn yr adroddiad hwn

437. DERBYN Y CWESTIYNAU CANLYNOL ODDI WRTH:

**Cwestiwn oddi wrthY Cynghorydd T Thomas i Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol**

A wnaiff Aelod y Cabinet amlinellu eu cynlluniau i leihau'r risg o ddigartrefedd yn ystod cyfnod gofidus y pandemig Covid-19?

**Ymateb Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol**

Fel yr hysbyswyd chi eisoes, mae unigolion yn cael eu hunain yn ddigartref am nifer o resymau, er enghraifft, diwedd perthynas, anawsterau yn y berthynas rhwng rhiant a phlentyn, trais yn y cartref. Nid yw'r fath resymau (risgiau) wedi newid yn sgil y pandemig Covid-19, ond yr hyn sydd wedi newid yw'r disgwyliadau ar awdurdodau lleol.

Fel y gwyddoch, ar ddechrau'r pandemig, disgwylid i bob awdurdod lleol sicrhau nad oedd unigolion yn ddigartref ar y stryd yn ystod y clo mawr. Disgwyliai Llywodraeth Cymru i Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr I ddarparu llety dros dro addas *gydag ystafell ymolchi* i'r garfan hon. Ymestynnodd Llywodraeth Cymru'r diffiniad o fregus dan y Ddeddf Tai gyfredol er mwyn ystyried effaith y pandemig Covid-19. Yn eu barn nhw, mae'r pandemig Covid-19 yn fygythiad difrifol ac yn risg eithriadol i'r bobl hynny sy'n ddigartref a'r posibilrwydd yw nad yw'r unigolion yma'n gallu cydymffurfio â chyngor iechyd, hunan-ynysu, ymbellhau'n gymdeithasol na chynnal y gofynion hylendid angenrheidiol ac mae'n ymddangos yn anorfod felly fod person sydd naill ai'n ddigartref ar y stryd neu'n wynebu digartrefedd ar y stryd yn llai abl na pherson digartref cyffredin i ofalu amdano/amdani ei hun. Golygai'r newid hwn yn y canllawiau nad oedd yr unedau llety lle a osodwyd i unigolion digartref yn y gorffennol bellach yn cydymffurfio â'r gofynion presennol, h.y. yn sgil ymbellhau cymdeithasol, roedd y trothwy capasiti'n is, ac roedd angen hefyd am adnoddau ystafell ymolchi unigol yn sgil natur heintus iawn y feirws Covid-19.

Y llynedd, derbyniodd y Cabinet ein strategaeth i daclo digartrefedd ym Mwrdeistref Sirol Pen-y-bont, gyda'r bwriad o "***Weithio ar y cyd ar sail gorfforaethol gyda phartneriaid allanol, a defnyddwyr gwasanaeth, mewn modd ymatebol, greadigol ac amserol i atal a lliniaru digartrefedd drwy'r fwrdeistref sirol yn gyfan, gan sicrhau y gall pobl gael mynediad i lety addas, gyda'r gefnogaeth angenrheidiol i gyflenwi eu hanghenion".***

Nid yw'r pandemig Covid-19 wedi newid ein huchelgais, ond gyda'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru, mae wedi rhoi'r modd i ni gyflymu rhan o'n cynllun a bwrw ymlaen â phrosiectau a fyddai wedi bod yn disgwyl ar y cyrion am gyllid heblaw am hynny.

Mae ein cynllun ar y cyd yn ystyried fod digartrefedd yn fater cymhleth ac aml-haenog sy'n gofyn am ymateb amlweddog. Mae dadansoddiad o anghenion y cohort o bobl a dderbyniodd lety yn ystod y pandemig Covid-19 yn cadarnhau hyn. Er enghraifft, o'r rhai a dderbyniodd lety yn ystod y pandemig Covid-19, dim ond 1 o'r 15 oedd heb angen cefnogaeth, tra bod anghenion gan y gweddill i gyd, oedd yn gofyn am gefnogaeth iechyd meddwl a/neu gamddefnydd sylweddau – nid darparu llety yw'r unig ateb. Er mwyn sicrhau fod y llety sy'n cael ei ddarparu'n addas ar gyfer yr unigolyn, rhaid bod yr unigolyn yn barod ac yn dymuno mynd i'r afael â rhai o'u hanghenion.

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont wedi cyflwyno ceisiadau i Lywodraeth Cymru ar gyfer prosiectau cyfalaf a refeniw i helpu gyda'r gofynion llety ychwanegol. Isod, gwelir rhai enghreifftiau o'r mathau o brosiectau yr ydym wedi eu cefnogi yn sgil cyllid ychwanegol oddi wrth Lywodraeth Cymru, ac rwy'n gobeithio y byddwch yn eu gweld yn ddefnyddiol, ac fel arfer, rwy'n hapus i drefnu cyfarfod i'w trafod yn fanwl neu os yn bosib, drefnu ymweliadau megis yr un a wnaed â Hostel Brynmenyn yr wythnos ddiwethaf.

Mae'r prosiectau refeniw yn cynnwys darparu gwasanaethau cefnogi ychwanegol ar gyfer Hostel Brynmenyn sydd wedi galluogi'r hostel i gael ei defnyddio ar gyfer blaenoriaethu ac adnabod gofynion cefnogaeth defnyddwyr y gwasanaeth. Rydym hefyd wedi defnyddio'r grant refeniw i gefnogi Pobl i reoli llety ar Commercial Street ym Maesteg ac mae'r Swyddogion yn gweithio ar lefel ranbarthol gydag awdurdodau cyfagos a Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg i ddarparu cynllun peilot sy'n ymestyn allan i'r rhai sy'n camddefnyddio sylweddau, sydd wedi cael cychwyn cadarnhaol ac rwy'n gobeithio y gellir ei gynnal i'r dyfodol.

Mae'r prosiectau cyfalaf wedi derbyn cefnogaeth ddangosol oddi wrth Lywodraeth Cymru a bydd yn edrych i gynyddu faint o unedau llety sydd ar gael ym Mhen-y-bont. Amrywia'r cynlluniau yma o brynu adeiladau yn y sector breifat gan Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (RSLs), ac adnewyddu tai nad ydynt bellach yn cyflenwi anghenion ein demograffig digartrefedd i gynyddu capasiti ein cynlluniau cyfredol.

Yn fy marn i, mae'r Tîm Ymateb Tai wedi gwneud eu gorau glas i ganfod llety i bob person digartref ym Mhen-y-bont yn ystod y pandemig Covid-19 ac fe fyddant yn parhau â'r gwaith yn ystod y cyfnod hwn o ofid byd-eang.

Yn ei gwestiwn atodol, holodd y Cynghorydd Thomas beth mae'r Cyngor yn ei wneud i gefnogi cyn-filwyr o'r lluoedd arfog rhag bod yn ddigartref. Eglurodd Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol wrth yr Aelodau fod y Cyngor yn gweithio gyda'r trydydd sector i gefnogi cyn-filwyr a'u bod wedi arwyddo ymrwymiad i gefnogi cyn-filwyr y lluoedd arfog. Hysbysodd Lladmerydd y Lluoedd Arfog y Cyngor eu bod yn cefnogi elusennau'r cyn-filwyr ac amlinellodd achos diweddar pan wnaed cyn-filwr yn ddigartref, cafodd ei roi mewn llety dros dro cyn ei symud i lety mwy parhaol. Diolchodd y Cynghorydd Thomas yr Aelodau am eu hymateb gan ddatgan y byddai'n codi'r mater eto drwy gyfrwng cwestiwn ysgrifenedig i Ladmerydd y Lluoedd Arfog.

Holodd Aelod gwestiwn atodol gan gyfeirio at y trafodaethau helaeth yn ystod y Panel Adferiad a holi am effeithiolrwydd y bartneriaeth a'r ymateb a dderbyniwyd oddi wrth bartneriaid yn ystod y pandemig. Hysbysodd Aelod y Cabinet dros Les a Chenedlaethau'r Dyfodol fod y Cyngor wedi cydweithio â'r trydydd sector sydd wedi

ymateb yn sydyn yn ystod y pandemig, gyda chefnogaeth ardderchog oddi wrth y Wallich, Caer Las a Phobl. Eglurodd fod yr elfen gefnogaeth yn allweddol yn y cyswllt hwn a bod y trydydd sector ac Ymateb Tai wedi cydweithio'n arbennig gyda'i gilydd gan gyfarfod yn wythnosol. Ymhellach, roedd Heddlu De Cymru wedi ymateb yn sydyn i achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol ac wedi ymgymryd â gwaith ataliol o fewn y gymuned. Roedd busnesau lleol, megis perchnogion gwestai a sefydliadau gwely a brecwast wedi ymateb yn gadarnhaol drwy ddarparu llety ar gyfer y digartref. Mynychodd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig gyfarfodydd o'r Panel Ailgartrefu Brys er bod eu staff ar seibiant swydd.

**Cwestiwn gan y Cynghorydd A Hussain i Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**
Cafwyd rhybudd yn dilyn cyhoeddi adroddiad ar y cyd rhwng y Gymdeithas Llywodraeth Leol a'r Ganolfan Iechyd Meddwl sy'n cyfeirio at yr angen am wasanaethau lleol ataliol er mwyn helpu i leihau'r anghydraddoldebau iechyd a sicrhau gwell iechyd meddwl i bawb.

All Aelod y Cabinet egluro pa fesurau ataliol sydd wedi eu mabwysiadu o fewn ein Sir er mwyn helpu pawb i gadw'n feddyliol iach, yn cynnwys y rhai sydd wedi eu heffeithio gan Covid-19?

**Ymateb Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar**

Mewn ymateb i'r cwestiwn yn ymwneud â pha fesurau ataliol sydd wedi eu mabwysiadu i helpu pobl i gadw'n feddyliol iach o fewn y Fwrdeistref Sirol.

Mae'r isod yn disgrifio'r gwasanaethau sy'n bodoli ar hyn o bryd

Gwasanaethau Plant:
Bydd nifer o blant yn elwa o dderbyn help a chefnogaeth gynnar ar ryw gyfnod yn ystod eu plentyndod a bydd angen help gan arbenigwyr y gwasanaeth iechyd meddwl ar rai. Yn ogystal â'r bobl ifanc hynny y mae eu hanghenion iechyd meddwl wedi eu hadnabod, mae llawer mwy sy'n wynebu anawsterau cynnar, yn cynnwys y rheini sy'n wynebu byw mewn sefyllfaoedd sy'n cynyddu'r risg o ddatblygu problemau sylweddol ac a allai elwa o dderbyn cefnogaeth gynnar i hybu iechyd meddwl da mewn modd gweithredol.

Mae ymateb cadarn, graddol yn allweddol i sicrhau iechyd meddwl da ymysg plant a phobl ifanc, gan gynnwys y teulu wrth ymwneud â materion megis: genedigaeth iach, rhianta cyson, cadarnhaol, cydbwysedd rhwng maeth ac ymarfer corff, cyrhaeddiad yn yr ysgol, ffrindiau a'r gallu i ymdopi â digwyddiadau bywyd. Gall plant a phobl ifanc sy'n feddyliol iach ddatblygu'n emosiynol, greadigol a deallusol a meddu ar y cryfder i ymdopi ag anawsterau bywyd. Cydnabyddir fod profiadau plentyndod yn effeithio'n sylweddol ar y gallu i fod yn rhiant effeithiol a chefnogol yn y dyfodol.

Ceir amrywiaeth eang o wasanaethau ataliol o fewn y portffolio cefnogi gwaith a theulu integredig sy'n cefnogi iechyd meddwl plant a phobl ifanc. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Tair canolfan leol wedi eu lleoli yng ngogledd, gorllewin a dwyrain y fwrdeistref sirol. Mae'r rhain yn cynnwys gweithwyr cefnogi'r teulu, swyddogion ymwneud â'r teulu, cwnselwyr wedi eu lleoli mewn ysgolion, gweithwyr ieuenctid, swyddogion lles addysgol, gweithwyr lles emosiynol a chwnsela cymdeithasol.
- Canolfan ganolog sy'n cynnwys amrywiaeth o wasanaethau arbenigol yn cynnwys rhai sy'n cefnogi plant ar 'ymyl gofal' a'r gwasanaeth cyfiawnder ieuenctid.

- Gwasanaeth datblygu ieuenctid – gweithwyr ieuenctid, gweithwyr ymwneud, gwasanaeth ieuenctid rhan-amser ayb. Yn benodol, ceir tîm lles emosiynol ieuenctid sy'n cynnig cefnogaeth i bobl ifanc rhwng 11 a 25 mlwydd oed ar sail asesiad anghenion.
- Gofal plant a blynyddoedd cynnar, yn cynnwys Dechrau'n Deg.

Yn fwy penodol, ceir adnodd gwasanaeth iechyd meddwl plant a llencyndod (CAMHS) o fewn canolfan ddiogelu aml-asiantaeth (MASH) ochr yn ochr â dwy nyrs iechyd cyhoeddus sy'n gallu cyfeirio plant, pobl ifanc a theuluoedd at y gwasanaethau cywir.

<u>Y Gwasanaeth Seicoleg Addysg (EPS)</u>
Parhaodd y Gwasanaeth Seicoleg Addysg i gefnogi ein plant, pobl ifanc, staff ysgolion a theuluoedd gyda sylw arbennig i les drwy gyfrwng y dulliau canlynol:

- cyswllt parhaus a chefnogaeth ymgynghorol ar gyfer ysgolion a theuluoedd drwy gyfrwng llinell gymorth dros y ffôn, e-byst a chyfarfodydd rhithiol
- datblygu a dosbarthu 11 pecyn o ddeunyddiau ar gyfer ysgolion i gefnogi iechyd meddwl a lles staff, disgyblion a theuluoedd yn ystod tymor gwanwyn a haf 2020
- sefydlu ac arwain tasg ddychwelyd i'r ysgol a grŵp gorffen yn ystod tymor haf 2020 gyda chynrychiolaeth oddi wrth ysgolion a swyddogion yr awdurdod lleol
- anfon holiaduron lles i staff ysgolion ar draws Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont gan gynnig cefnogaeth i bawb a holodd amdano
- datblygu Llyfryn Adferiad, Ailgyflwyno ac Adnewyddu ar gyfer Ysgolion a Lleoliadau Addysgol gan gyfeirio at ddigwyddiadau critigol er mwyn cefnogi integreiddiad disgyblion nôl i'r ysgol yn ystod tymor hydref 2020
- yn dilyn ceisiadau am gefnogaeth, sefydlu dau gynllun yn ystod yr hydref hwn:
    - cefnogaeth i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn Ysgol Brynteg
    - cefnogaeth trosglwyddo i ddisgyblion bregus Blwyddyn 7 yn Ysgol Gatholig yr Archesgob McGrath
- caiff teclyn proffilio lles PERMA ei brofi eleni mewn 10 ysgol ym Mhen-y-bont
- cynnydd o 100% o safbwynt teclyn goruchwylio cefnogi dysgu emosiynol (ELSA) wedi ei ddarparu gan EPS sy'n canolbwyntio ar welliant a lles yn ystod y flwyddyn academaidd hon
- ymgymryd â phrosiect ymchwil gofal yn Ysgol Bryn Castell i ddechrau
- peilot hyfforddi parod sy'n ymwneud â phrofiadau eithafol plentyndod (ACE) drwy gyfrwng webinar a chefnogaeth EPS fyw;
- cynllunio cyfarfodydd drwy gyswllt y seicolegydd addysgol (EP) gyda phob ysgol er mwyn adnabod eu blaenoriaethau a'u hanghenion o safbwynt cefnogaeth.
- rhoddir sylw cynyddol i les ac adferiad yn ystod y flwyddyn academaidd hon, yn ychwanegol at y cynlluniau y cyfeiriwyd atynt uchod. Bydd lles ac iechyd meddwl da yn parhau i fod yn sail i'n trafodaethau a'n gwaith ymyrryd.

<u>Gwasanaethau Oedolion</u>

Ceir amrywiaeth eang o wasanaethau ataliol ar gyfer oedolion yn cynnwys y rhai sy'n cael eu darparu ar y cyd â'r Bwrdd Iechyd.

Yn 2019, cafodd darpariaeth iechyd meddwl yr Awdurdod Lleol ei ail-fodeli er mwyn cynnig gwasanaeth Ataliol ac Ymyrraeth **(DEWR)** sy'n darparu gwasanaeth cymunedol ar gyfer dinasyddion sy'n wynebu salwch meddwl. Gwnaed hyn i sicrhau y gallem gefnogi'r dinasyddion hynny nad oedd yn cydymffurfio â chriteria rhai o'n gwasanaethau arbenigol.

Ethos **DEWR** yw mynd i'r afael â materion cymdeithasol sy'n effeithio ar unigolion neu eu teuluoedd/y rhai sy'n eu cefnogi er mwyn rhwystro dechrau salwch meddwl. Mae **DEWR** yn cynnig nifer o ymatebion hyblyg, sy'n canolbwyntio ar y person er mwyn sicrhau fod dinasyddion yn gallu ymwneud yn llawn â chymdeithas a bod y ffocws yn dal ar eu safbwyntiau, dymuniadau a'u teimladau. Rydym yn gweithio'n uniongyrchol gyda dinasyddion a'u teuluoedd gan dargedu'r gefnogaeth gydnabyddedig sydd ei angen arnynt er mwyn hybu eu lles meddyliol.

Gallwn gefnogi dinasyddion sy'n 16 mlwydd oed a throsodd sydd mewn perygl difrifol o ddatblygu iechyd meddwl gwael neu ddiffygiol, yn ogystal â'u teuluoedd a'u gofalwyr. Gall hyn gynnwys pobl sy'n wynebu digartrefedd, rhai sy'n dioddef o weithrediad uchel o safbwynt Anhwylder Sbectrwm Awtistig neu agweddau Anawsterau Dysgu.

Gall **DEWR** ddarparu cefnogaeth o safon uchel, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn er mwyn cefnogi dinasyddion i gyflawni a chynnal y lefelau uchaf posib o safbwynt annibyniaeth a lles meddyliol, naill ai drwy gyfrwng gweithgaredd grŵp neu ar lefel un i un. Mae'r tîm hefyd yn cefnogi cydweithwyr Gwasanaethau Plant er mwyn cynorthwyo gyda datblygiad a throsglwyddiad plentyn i fyd oedolyn, gan fynd i'r afael ag unrhyw faterion iechyd meddwl sy'n amlygu eu hunain.

Yn ystod y cyfnod anghymharol ac unigryw hwn, bu'n rhaid i'n gwasanaeth addasu er mwyn parhau i gyflenwi anghenion ein poblogaeth. Mae cyflwyniad a'r cynnydd yn y defnydd o dechnoleg wedi ein galluogi i gefnogi'r gymuned, a thrwy ymroddiad ein staff, rydym wedi llwyddo i wynebu'r sialensiau a ddaeth yn sgil Covid-19. Roedd cyswllt cyson a chymorth yn hanfodol i nifer o fewn yr ardal, ac ategwyd at bob dull o gysylltu, er mwyn darparu cysur a chynnig hyder i'r rhai sy'n derbyn cefnogaeth gennym.

Drwy gyfrwng Skype, mae staff wedi parhau i gynnig gwaith grŵp megis sesiynau garddio, crefft, coginio ac ymwybyddiaeth ofalgar. Mae'r gwaith ataliol beunyddiol er mwyn cynnal iechyd meddwl yn parhau, gan mai lles y rhai o dan ein gofal yw ein blaenoriaeth, ac rydym hefyd wedi cynyddu ein hymwneud â gofalwyr a'r rhai sy'n cefnogi er mwyn cynnal sefydlogrwydd o fewn y cartref yn ystod y fath gyfnodau anodd. Ochr yn ochr ag ymdrechion anhygoel ein partneriaid trydydd sector megis BAVO, mae'r tîm wedi ymdrechu i gefnogi'r rhai mwyaf bregus o fewn y gymuned, er mwyn sicrhau eu diogelwch a rheoli eu hofnau o ganlyniad i'r sefyllfa bresennol.

Yn ôl y disgwyl, mae'r pwysau a'r canlyniadau sy'n gysylltiedig â'r clo mawr megis ansicrwydd wedi effeithio ar nifer o'n trigolion, ac mae'r tîm yn dal yn hynod o brysur. Yr amcan i'r dyfodol yw parhau i ddatblygu cynlluniau newydd er mwyn targedu heriau sydd wedi dod i'r wyneb yn ystod y cyfnod unigryw hwn. Gall y rhain gynnwys hunanhyder a gofid am ddelwedd y corf, cynnydd mewn ymddygiad caethiwus a gwaith mwy dwys gyda theuluoedd lle mae Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn amlwg. Mae tarfu ar drefn ddyddiol bywyd wedi effeithio'n fawr iawn ar y grŵp hwn a bydd adran o fewn y tîm yn canolbwyntio ar ddarparu ymyrraeth wedi targedu i leihau effaith y pandemig ar y rhai yn y categori hwn. Byddwn yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r rhai sydd angen cymorth ar y cychwyn cyntaf er mwyn atal yr angen am ymyrraeth tymor hir yn ddiweddarach.

**Cefnogi Adferiad yn y Gymuned (ARC)** Gwasanaeth Ataliol a Lles ar y cyd rhwng yr Awdurdod Iechyd a Lleol yw hwn sy'n darparu Therapi Galwedigaethol, cefnogaeth gymunedol a chyngor ymarferol, arweiniad a chefnogaeth strwythuredig ar gyfer unigolion sy'n wynebu problemau iechyd meddwl. Mae'r tîm yn cynnig asesiadau, sydd wedyn yn gallu darparu amrywiaeth eang ac amrywiol yr ymyrraeth feddygol, therapi seicolegol, naill ai mewn grwpiau neu ar lefel un i un.

Mae'r tîm oedolion yn trafod yn gyson â'n partneriaid o'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol, yr heddlu, gwasanaethau addysg, tai a chyflogaeth gan gyfuno'r gefnogaeth a ddarperir ganddynt.

Roedd y Cynghorydd Hussain yn falch i nodi fod y Cyngor yn gwneud ei orau i gadw trigolion yn iach o safbwynt meddyliol, corfforol a chymdeithasol. Mynegodd ofid ynglŷn ag absenoldeb unrhyw gyfeiriad at y boblogaeth hŷn sy'n dioddef o iselder, arwahanrwydd, unigrwydd a dibyniaeth ar alcohol, ac i beidio ag anghofio 'syndrom straen ôl Covid-19' ymysg y grŵp hwn. Yn ei gwestiwn atodol, roedd y Cynghorydd Hussain yn awyddus i wybod mwyn am y teclyn proffilio lles PERMA fydd yn cael ei brofi yn ystod y flwyddyn gan 10 ysgol ym Mhen-y-bont ac a allai Aelod y Cabinet egluro mwy wrth y Cyngor amdano? Cytunodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar ddarparu ateb ysgrifenedig.

Holodd aelod o'r Cyngor am gynlluniau'r Cyngor o safbwynt gweithio gyda'r trydydd sector ac a oeddent yn cysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol. Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Plant yr Aelodau fod y gwasanaeth yn gweithio'n agos iawn gyda'r trydydd sector sy'n adrodd yn ôl i'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol, sy'n flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth a'i is-grwpiau.

Cyfeiriodd aelod o'r Cyngor at y posibilrwydd o glo mawr lleol a gofynnodd a allai'r Cyngor wneud unrhyw beth yn wahanol. Hysbysodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar yr Aelodau fod y Cyngor yn gorfod ymateb y n ddyddiol i sefyllfa sy'n newid yn gyson. Eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Plant wrth y Cyngor fod y gwasanaeth yn parhau i weithredu ar lefel lled glo, wrth barhau i gefnogi dinasyddion. Caiff camau gweithredu eu hadolygu'n ddyddiol ac mae'r gefnogaeth a roddir i ddinasyddion yn cydymffurfio â'r Cynllun Cyflwyno Gwasanaeth ac â chanllawiau Llywodraeth Cymru. Yn wyneb clo lleol, meddai, byddai'r gwasanaeth yn ymgymryd â mecanwaith trosolwg tynnach unwaith eto. Hysbysodd Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol a Chymorth Cynnar fod staff sy'n gweithio mewn ysgolion dan bwysau ac y byddai hynny'n effeithio ar wasanaethau ac y caiff profiadau Cynghorau Caerffili a Rhondda Cynon Taf eu holrhain.

438. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 18:11